# Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

**2010 mccc 3**

## 5 Yr ardollau sydd i'w gosod ar gigyddwyr neu allforwyr — cyfrifo'r ardoll a'i thalu

(1) Cyfrifir ardoll sy'n cael ei gosod ar gigyddwyr neu allforwyr am unrhyw gyfnod drwy gyfeirio at nifer y gwartheg, defaid neu foch y gellir codi ardoll amdanynt.

(2) Yn Atodlen 2—

(a) mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch sut y mae'n rhaid i ardollau gael eu cyfrifo, a

(b) mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu'r ardoll.

(3) O ran ardollau sydd i'w gosod ar gigyddwyr neu allforwyr, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau am weithdrefnau sy'n ymwneud â—

(a) gosod ardollau (gan gynnwys hysbysu personau sy'n atebol i dalu ardoll o'r swm sy'n ddyledus ganddynt), a

(b) talu a chasglu ardollau.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlen 2 drwy—

(a) diwygio neu hepgor darpariaethau;

(b) ychwanegu darpariaethau; neu

(c) diwygio neu hepgor unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu hychwanegu.

(5) Yn y Mesur hwn ystyr "gwartheg, defaid neu foch y gellir codi ardoll amdanynt" (*"chargeable cattle, sheep or pigs"*), o ran unrhyw gyfnod y mae ardoll wedi ei gosod ar ei gyfer—

(a) mewn perthynas â chigyddwr, yw gwartheg, defaid neu foch a gigyddir gan y cigyddwr yn y cyfnod hwnnw; a

(b) mewn perthynas ag allforiwr, yw gwartheg, defaid neu foch a allforir gan yr allforiwr yn y cyfnod hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I2** A. 5(1)-(3), (5) mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)
**I3** A. 5(4) mewn grym ar 28.11.2011 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(1)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, Adran 5.